# Philip Lloyd-Williams



**SUT I GYSYLLTU Â MI:**

E-bost plw@lwaa.co.uk

Twitter @LloydWilliamsAA

Ffôn 07973 676 176

LinkedIn

Sylfaenydd **Lloyd~Williams & Associates** ydw i, busnes a sefydlais gyda'r nod clir o wneud busnesau yn fwy llwyddiannus drwy ddatblygu pobl. Byddaf yn defnyddio'r 'Sgwrs Anodd' fel techneg graidd i'm galluogi i hwyluso timau ac unigolion i gael y trafodaethau hynny maent yn gwybod eu bod angen eu cael...ond y maent yn eu hosgoi.

Gwn fod mynd i'r afael â materion heriol, hyd yn oed problemau cynhenid a gwaddol, gydag adrannau, timau neu unigolion yn dod â budd sylweddol i sefydliad a'r unigolion oddi mewn iddo. Mae fy null yn ddidwyll, penodol, hwyliog a heriol a phob amser wedi'i wreiddio i realiti bywyd gwaith gyda nod clir o wella perfformiad. Rwy'n gyfranogwr gweithredol ym mhob agwedd ar fy ngwaith, byth yn arsyllwr o bell yn unig, ac yn dod ag egni a chreadigedd i bopeth a wnaf. Gyda ffocws ar feithrin gwir newid, rwy'n sicrhau bod pobl yn gadael fy sgyrsiau/sesiynau gydag offer, modelau a thechnegau ymarferol i'w cymhwyso.

Rwyf wedi gweithio fel cyfreithiwr a chyfarwyddwr strategol mewn sawl sefydliad mawr yn rheoli amrywiaeth o wasanaethau heriol a phroffil uchel. Mae fy mhrofiad cynhwysfawr o reoli ac arwain ar lefel uwch yn golygu fy mod yn deall cymhlethdodau a heriau arweinyddiaeth effeithiol. Yn ogystal, mae gennyf achrediad ILM Lefel 7 mewn Mentora a Hyfforddi Gweithredol ac rwyf wedi cael hyfforddiant cynhwysfawr mewn arwain a rheoli. Mae hyn oll yn rhoi'r sgiliau a'r hygrededd i gyflwyno'r her sydd ei hangen i gael pobl i feddwl a'r gallu i gyfuno hyn â gwybodaeth draws-sector, ymarferol o arfer da cyfredol.

Ers sefydlu fy musnes, llwyddais i ddatblygu a darparu rhaglenni rheoli newid tymor byr a chanolig, digwyddiadau cynllunio ar gyfer y dyfodol uwch dimau a thimau gweithredol a sesiynau wedi'u hwyluso sy'n ymwneud â rheoli a datrys anghydfod. Yn unigryw mae gennyf brofiad cynhwysfawr o weithio gyda chynrychiolwyr etholedig a rheoli perthnasoedd gwleidyddol ymysg unigolion etholedig a dietholedig, a'r heriau mae hyn yn eu cyflwyno i lywodraethiant corfforaethol effeithiol.

Drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau wedi'u tynnu o wybodaeth gynhwysfawr am theori, profiad ymarferol ac arbrofi, mae fy arbenigedd mewn sicrhau bod yr hyn sydd wrth wraidd unrhyw her yn cael ei ddatgelu, ei ddeall a'i drin mewn modd cynhyrchiol. Byddaf wastad yn gwneud hyn â hiwmor da, hwyl a siarad didwyll. Fel Cymro Cymraeg, gallaf ddarparu hyn i gyd yn Gymraeg neu Saesneg. Mae enghreifftiau o fy nghomisiynau'n cynnwys:

- Mentora a Hyfforddi Gweithredol.
- Rhaglenni arweinyddiaeth ar gyfer Uwch Reolwyr, Rheolwyr Canol a Byrddau (wedi'u teilwra ar gyfer bob sefydliad)
- Datblygiad rheoli (addysgu Rheolwyr i reoli)
- Heriau'n ymwneud ag ymddygiad, yn unigol a sefydliadol
- Datblygu tîm o gynllunio diagnostig i gynllunio busnes
- Hwyluso (cynorthwyo timau i gael y sgyrsiau sydd eu hangen arnynt)
- Cynllunio strategol ar gyfer y dyfodol, gosod blaenoriaethau a llunio gweledigaeth
- Llywodraethiant effeithiol yn cynnwys hwyluso staff a Byrddau Gweithredol
- Digwyddiadau newid diwylliant ac agenda

Yn ogystal â'm cymhwyster Mentora a Hyfforddi Gweithredol ILM Lefel 7 mae gennyf Dystysgrif Ôl-radd mewn Addysg Uwch a MBA a Doethuriaeth mewn gwleidyddiaeth. Mae gennyf radd yn y gyfraith a bûm yn gyfreithiwr am dros 20 mlynedd, ac er nad wyf yn trin y gyfraith bellach rwy'n parhau i fod yn aelod o Gymdeithas y Cyfreithwyr.

E-bost plw@lwaa.co.uk Ffôn 07973 676 176